



Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU
(01492) 574000
Cyf/Ref: CCBC-035833

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Conwy (Ffyrdd Amrywiol Llandudno)
(Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2021

Ar 20 Gorffennaf 2021 gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y Gorchymyn a enwir uchod, dan Adrannau 1 a 2 a Rhan IV Atodlen 9, Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984, ac effaith hynny yw cyflwyno cyfyngiadau ar y darnau o ffordd fel y nodir yn yr Atodlenni isod.

Mae'r Gorchymyn yn darparu eithriadau a fydd yn caniatáu aros i bwrpas dod allan o gerbyd, mynd i mewn i gerbyd, llwytho neu ddadlwytho cerbyd, a gwaith cynnal a chadw, gwaith atgyweirio, ac yn y blaen. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu eithriadau a fydd yn caniatáu i gerbydau sydd yn arddangos bathodyn unigolyn anabl, ynghyd â disg parcio unigolyn anabl.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn, a ddaw i rym ar 4 Awst 2021 a map yn dangos y darnau ffordd y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddynt ar wefan y Cyngor.

Os ydych yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddo, ar y sail nad yw'n dod o fewn y pwerau a roddir gan Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984, neu oherwydd na chydymffurfiwyd, mewn perthynas â'r Gorchymyn, ag unrhyw amod o'r Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaed dan y ddeddf, gallwch wneud cais i'r Uchel Lys i'r perwyl hwn o fewn chwe wythnos i ddyddiad y rhybudd hwn.

Atodlen 1 – (Dim aros ar unrhyw adeg)

Ffordd y Gogarth	Ochr y gogledd-ddwyrain; o'i chyffordd â Gloddaeth Avenue am 10 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.
Gloddaeth Avenue	Ochr y gogledd-orllewin: <ol style="list-style-type: none">o'i chyffordd â Ffordd y Gogarth am bellter o 15 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain.10 metr naill ochr o'i chyffordd â Carroll Place.10 metr naill ochr o'i chyffordd â Salisbury Court.O bwynt 10 metr i'r de orllewin o'i chyffordd â Salisbury Road am bellter o 11 metr tua'r gogledd ddwyrain. Ochr y de-ddwyrain: 10 metr naill ochr i'r fynedfa i Manor Park.
Gloddaeth Street	Ochr y gogledd-orllewin, o'i chyffordd â York Road am bellter o 10 metr tua'r gogledd-ddwyrain. Ochr y de-ddwyrain: <ol style="list-style-type: none">10 metr naill ochr o'i chyffordd â Clifton Road.o bwynt 17 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â

	Chapel Street i bwynt 33 metr i'r de orllewin o'i chyffordd â Garden Street.
York Road	Ochr y gogledd-ddwyrain; o'i chyffordd â Gloddaeth Street am 3 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin.
Ffordd Tŷ Gwyn	Ochr y de: o bwynt 58 metr i'r de-ddwyrain o Tabor Hill am bellter o 21 metr i gyfeiriad y dwyrain.

Atodlen 2 (Dim aros gan Gartrefi Modur a Charafanau rhwng 11pm ac 8am)

Gloddaeth Avenue	<p>Ochr y gogledd-orllewin:</p> <ol style="list-style-type: none"> o bwynt 15 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Ffordd y Gogarth i bwynt 10 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Carroll Place. o bwynt 10 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Carroll Place i bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Salisbury Court. o bwynt 10 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Salisbury Court i bwynt 10 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Salisbury Road. <p>Ochr y de-ddwyrain:</p> <ol style="list-style-type: none"> O bwynt 11 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Ffordd y Gogarth i bwynt 10 metr i'r de-orllewin o'r ffordd fynediad i Manor Park. O bwynt 10 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r ffordd fynediad i Manor Park i bwynt 30 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd gyda The Oval. O bwynt 30 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â The Oval am bellter o 7 metr tua'r gogledd-ddwyrain. O bwynt 56 metr i'r gogledd-ddwyrain o The Oval i bwynt 143 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd gyda Maelgwyn Road.
Gloddaeth Street	<p>Ochr y gogledd-orllewin:</p> <ol style="list-style-type: none"> o bwynt 29 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â York Road i bwynt 18 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Clement Avenue. o bwynt 18 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Clement Avenue i bwynt 25 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Arvon Avenue. <p>Ochr y de-ddwyrain:</p> <ol style="list-style-type: none"> o bwynt 10 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Maelgwyn Road i bwynt 10 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Clifton Road. o bwynt 10 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Clifton Road am 19 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain. o bwynt 20 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â

	Deganwy Avenue i bwynt 23 metr i'r de orllewin o'i chyffordd â Chapel Street.
Carroll Place	Y ddwy ochr; ar ei hyd gyfan.
Salisbury Court	Y ddwy ochr; ar ei hyd gyfan.

Atodlen 3 – (Cyfyngu amser aros i 90 munud, 9am tan 6pm, heb hawl i ddychwelyd o fewn 60 munud.)

Gloddaeth Street	Ochr y de-ddwyrain; O bwynt 4 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Garden Street am bellter o 15 metr tua'r gogledd orllewin.
-------------------------	---

Atodlen 4 – (Clirffordd 24 awr)

Ffordd Tŷ Gwyn	O'i chyffordd gyda St Tudno's Road i'r grid gwartheg am bellter o tua 250 metr i gyfeiriad y dwyrain.
St Tudno's Road	O'i chyffordd â Ffordd Tŷ Gwyn am bellter o 85 metr i gyfeiriad y gogledd.
Bishop's Quarry Road	O'i chyffordd â St Tudno's Road i'w phen gorllewinol.

Atodlen 5 (Dirymiad)

Gloddaeth Street	Ochr y de-ddwyrain; O bwynt 8 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Garden Street am bellter o 25 metr tua'r de-orllewin.
-------------------------	---

Dyddiedig: 29 Gorffennaf 2021



Rhun ap Gareth
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu